AWYRLUN OGWEN

gan Gwaith Maes

Bydd y llun hwn o fudd i athrawon daearyddiaeth yn bennaf ond hefyd i athrawon hanes. I wneud defnydd llawn ohono bydd angen y map(iau) Arolwg Ordnans canlynol:

MAPIAU AROLWG ORDNANS:

Yr Wyddfa	[Cyfeirnod Llyn Ogwen 660605]
Landranger 125	1:50 000
Outdoor Leisure 17	1:25 000

Dim ond awgrymiadau yw'r cwestiynau sydd yn dilyn – athrawon pynciol yw'r arbenigwyr a hwy yn unig fedr wneud y defnydd gorau o'r adnoddau.

1. I ba gyfeiriad oedd yr awyren yn teithio pan gymerwyd y llun hwn?
2. Pa fynydd ydy **A** ar y llun?
3. Pa fynydd ydy'r un y tu hwnt i Lyn Ogwen sydd â'i gopa ynghudd yn y niwl (**B** ar y llun?)
4. Beth ydy cyfeiriad Carnedd Llywelyn o Lyn Ogwen?
5. Pa ddigwyddiad daearegol/hanesyddol sydd yn gyfrifol am ffurf y cymoedd a'r cribau o'u hamgylch? Pa rym a gerfiodd y tirwedd?
6. Pam oedd cael ffordd dda (**C** ar y llun) rhwng Capel Curig a Bangor mor bwysig i Thomas Telford?
7. Yn ôl tystiolaeth y llun a'r map, ai ffordd Telford oedd y gyntaf i ddilyn y llwybr hwn rhwng y Carneddau a'r Glyderau?

[Cyfeiria'r gair **tirwedd** yn benodol at uchder a siap y tir, tra mae'r gair **tirlun** yn cynnwys nid yn unig ffurf y tir ond hefyd **y defnydd a wneir ohono**. Cyfeiria "defnydd tir" at yr adeiladau ar y tir a'r defnydd a wneir o'r adeiladau yn ogystal â'r defnydd a wneir o dir agored. Gweler ymhellach *Tirwedd a Thirlun* (Toni Schiavone) Gwaith Maes, ffolder *Daearyddiaeth*]

8. Nodwch y defnydd tir a welir yn y llun er mwyn gwahaniaethu rhwng ystyr tirwedd a thirlun.
9. Mae **Ch** ar y llun yn dangos lleoliad Helyg, caban enwog Clwb y Dringwyr. Beth mae hwn yn ei ddweud wrthym am newid yn y defnydd o hen adeiladau yn yr ardal fynyddig hon?
10. Lluniwch ddisgrifiad syml o'r tirwedd ac yna ail ddisgrifiad o'r tirlun cyfan.

Mae hawlfraint y llun yn eiddo i Gyngor Brenhinol Henebion Cymru a dymuna

Cymdeithas Gwaith Maes gydnabod ei diolch iddynt am eu cefnogaeth a'u cymorth.

Hawlfraint y Goron:CHBC